# Canllawiau i argymell unigolion ar gyfer Cymrodoriaeth Er Anrhydedd

Gall unrhyw un o Gymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru argymell Cymrodyr Er Anrhydedd. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r broses i wneud hynny. Mae'r meini prawf i Gymrawd ar Anrhydedd yn wahanol i feini prawf Cymrawd ac felly, mae'r broses enwebu'n wahanol.

## Rôl Cymrodyr Er Anrhydedd:

- Mae Cymrodyr Er Anrhydedd yn unigolion sydd ag enw da ledled y byd ac sy'n ymgysylltu â'r Gymdeithas ar lefel lysgenhadol.
- Caiff pob Cymrawd Er Anrhydedd ei annog i chwarae rhan weithredol yn y Gymdeithas i helpu i hyrwyddo effaith y sefydliad a chyfrannu ei amser a'i ddylanwad i helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Gymdeithas.
- Ar ôl i aelodau gael eu hethol, maent yn aelodau am oes, yn ddibynnol ar ddilyn Cod Ymddygiad y Gymrodoriaeth.
- Gallant ddefnyddio'r llythrennau HonFLSW ar ôl eu henwau.
- Nid oes angen i Gymrodyr Er Anrhydedd dalu ffi gofrestru na ffi danysgrifio.
- Nid oes ganddynt yr hawl i bleidleisio dros fusnes y Gymdeithas ond mae ganddynt yr hawl i bob un o fuddion eraill bod yn Gymrawd.

## Meini Prawf Cymrodoriaeth Er Anrhydedd:

Mae proses ethol Cymrawd Er Anrhydedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cydnabod y rhai sydd ag enw da'n rhyngwladol, proffil cyhoeddus uchel iawn, ac effaith ragorol yn eu maes. Byddant yn cefnogi Cenhadaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru a byddant yn barod i weithredu fel llysgennad dros y Gymdeithas.

Gall ymgeiswyr gynnwys y rhai na allent gael eu henwebu fel arfer dan reolau Cymrodoriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Ni ddylai Cymrawd Er Anrhydedd gael gwrthdaro buddiannau hysbys ag uchelgeisiau a nodau strategol y Gymdeithas.

Gall Cymrodyr Er Anrhydedd ddod o unrhyw genedl, cefndir (academaidd neu fel arall) neu faes arbenigedd, cyhyd â bod modd dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- **Cyfraniad rhagorol ac effeithiol i gymdeithas a/neu ysgolheictod sy'n cael ei gydnabod ledled y byd.**

Bydd gan Gymrodyr Er Anrhydedd enw da am gyflawniadau sydd o werth rhyngwladol, gan gynnwys gwaith elusennol a dyngarol.

- **Proffil cyhoeddus sy'n gadarnhaol iawn.**

Bydd gan Gymrodyr Er Anrhydedd broffil cyhoeddus sylweddol a chadarnhaol y tu hwnt i'w maes arbenigedd.

- **Gyrfa a sefyllfa sy'n unol ag uchelgeisiau a nodau strategol Cymdeithas Ddysgedig Cymru.**

Bydd gwaith a gyrfa Cymrodyr Er Anrhydedd yn cefnogi ac yn cyd-fynd ag uchelgeisiau a nodau strategol y Gymdeithas. Rydym yn gobeithio y bydd ein Cymrodyr Er Anrhydedd yn fodlon ymrwymo eu hamser a'u dylanwad i helpu i lywio a datblygu blaenoriaethau'r Gymdeithas.

- **Yn barod i ymgysylltu â'r Gymdeithas ar lefel lysgenhadol.**

Gall Cymrodyr Er Anrhydedd fod mewn sefyllfa i chwarae rhan mewn trafodaethau lefel uchel a gweithgareddau gosod agendâu ar ran y Gymdeithas.

- **Mae'n ddymunol, ond nid yn hanfodol, y gall Cymrodyr Er Anrhydedd ddangos ryw gysylltiad â Chymru, neu gydnawsedd â Chymru.**

Byddem yn disgwyl i'n Cymrodyr Er Anrhydedd fod ag ymrwymiad personol i lesiant Cymru.

## Proses argymell Cymrodyr Er Anrhydedd:

- Mae modd i unrhyw un o Gymrodorion y Gymdeithas argymell rhywun ar gyfer Cymrodoriaeth Er Anrhydedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, ac eithrio unrhyw Gymrodyr sy'n aelod o'r Pwyllgor Cymrodoriaeth a'r Aelod Annibynnol dethol.
- Mae'n rhaid i bob un o'r argymhellion gael eu 'heilio' gan Gymrawd arall o'r Gymdeithas.
- Mae'n rhaid argymell gan ddefnyddio'r 'Llythyr Argymell' a ddarparwyd at y diben hwn.
- Mae'n rhaid i bob Llythyr Argymell roi manylion ynghylch pam mae'r Cymrawd o'r farn bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Cymrodoriaeth Er Anrhydedd.

- Caiff Cymrodyr Er Anrhydedd eu gwahodd i ymwneud â'r Gymdeithas mewn rhyw ffordd neu ei gilydd yn ystod eu Cymrodoriaeth - o fynd i ddigwyddiad addas i draddodi darlith. Caiff hyn ei wneud yn glir iddynt os cânt eu gwahodd i'r etholiad.
- Bydd manylion y ffenestr i gyflwyno Llythyr Argymell ar gael ar y wefan pob blwyddyn - mae'n rhaid argymell cyn y dyddiad cau i'r unigolyn gael ei ystyried yn y flwyddyn etholiad honno.
- Dylai enwebiadau barhau'n gyfrinachol ac NI DDYLID dweud wrth yr unigolyn sy'n cael ei argymell fod ei enw wedi cael ei gynnig. Bydd staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cysylltu ag ef os caiff ei enw ei gymeradwyo.

## Craffu enwebiadau Cymrodoriaeth Er Anrhydedd:

- Caiff Llythyrau Argymell sy'n dod i law yn ystod unrhyw flwyddyn ethol eu cyflwyno i un o gyfarfodydd arbennig y Pwyllgor Cymrodoriaeth. Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys aelodau arferol y Pwyllgor Cymrodoriaeth yn ogystal ag un Aelod Annibynnol (sef Cymrawd) a chaiff gwahoddiad hefyd ei estyn i un Cymrawd Er Anrhydedd gyfrannu ei graffter.
- Bydd cyfarfod arbennig hwn gan y Pwyllgor Cymrodoriaeth yn ystyried pob un o'r argymhellion a gafwyd drwy eu cymharu â'r Meini Prawf Cymrodoriaeth Er Anrhydedd.
- Caiff diwydrwydd dyladwy yna ei roi o ran yr angen i ymchwilio ymhellach i ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.
- Ar ôl y drafodaeth hon, bydd y Pwyllgor Cymrodoriaeth yn cytuno ar ba Lythyrau Argymell y caiff eu cyflwyno i'r Cyngor fel 'enwau a argymhellir ar gyfer etholiad' i Gymrodoriaeth Er Anrhydedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru heb unrhyw drefn blaenoriaeth.
- Bydd y rhestr enwau hon a argymhellir ar gyfer etholiad yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ei chymeradwyo.
- Bydd rhaid i unrhyw aelod y Cyngor sydd wedi cyflwyno neu eilio Llythyr Argymell ar gyfer enw ar y rhestr gael eu heithrio o'r drafodaeth hon.
- Ni fydd unrhyw adborth ar y trafodaethau'n cael ei gasglu na'i gynnig.
- Ni fydd unrhyw derfyn ar nifer yr enwau y gellir eu hargymell.

## Etholiad Cymrodyr Er Anrhydedd:

- Ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo, bydd staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n cysylltu â'r unigolion ar y rhestr enwau a argymhellir ar gyfer etholiad ac yn eu gwahodd i dderbyn y cynnig Cymrodoriaeth Er Anrhydedd (yn ddibynnol ar ganlyniad y bleidlais Cymrodoriaeth).
- Bydd disgwyliadau'r Cymrodyr Er Anrhydedd o ran parodrwydd i ymgysylltu â'r Gymdeithas ar lefel lysgenhadol yn cael eu hamlygu yn y gwahoddiad hwn a chaiff unigolion eu gwahodd i dderbyn (neu wrthod) Cymrodoriaeth Er Anrhydedd ar y sail hon.
- Caiff yr unigolion sy'n derbyn y gwahoddiad hwn eu hychwanegu i'r bleidlais Cymrodoriaeth flynyddol ynghyd ag enwau'r Cymrodyr newydd sydd wedi'u cynnig ar gyfer Cymrodoriaeth.
- Ar ôl yr etholiad, caiff pob Cymrawd Er Anrhydedd newydd ei wahodd i fod yn bresennol mewn digwyddiad neu gyfarfod addas (y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn aml) i gael ei dderbyn yn ffurfiol i Gymrodoriaeth Er Anrhydedd y Gymdeithas.